# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)33-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 9 Rhagfyr 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carl Sargeant, Prif Chwip

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael ymddiheuriadau am absenoldeb gan Arweinydd y Tŷ a chan Kirsty Williams. Croesawodd Carl Sargeant a Peter Black a oedd yn eu cynrychioli, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)32-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

2.2 Edrychodd y Pwyllgor Busnes eto ar fater Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael ei sefydlu unwaith y bo enwebiadau'n dod i law.

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)33-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Gofalwyr yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Nododd y pwyllgor y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i atal Rheolau Sefydlog, i ddwyn ymlaen gynigion i sefydlu ac ethol Pwyllgorau Deddfwriaeth Rhif 2 & 3.

3.3 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.4 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 9 a 10 Rhagfyr 2008.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)33-08(p2)**

3.5 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)33-08(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth a ganlyn:

Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Gynllun Pensiwn yr Aelodau (10 munud) ar 14 Ionawr; a

Dadl ar Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ei Ymchwiliad i Ad-drefnu Ysgolion yng Nghefn Gwlad Cymru (60 munud) ar 28 Ionawr .

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur Cyflwyno gan y Gweinidog am Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 - BC(3)33-08(p4) ac amserlen eglurhaol - BC(3)33-08(p5)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur ar y Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009. Cytunodd y pwyllgor i gyfeirio'r Gorchymyn drafft i bwyllgor deddfwriaethol parhaol i'w ystyried yn fanwl, gyda dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad gan y pwyllgor sef 3 Ebrill 2009.

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) ac Adroddiad y pwyllgor - BC(3)33-08(p6)**

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau.

**Papur am Gyfnod 2 y Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) - BC(3)33-08(p7)**

4.3 Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar y Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru). Cytunodd y pwyllgor i gyfeirio'r Mesur i bwyllgor deddfwriaeth parhaol newydd ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2.

4.4 Cytunodd y pwyllgor hefyd y caiff Aelod sy'n gyfrifol am ddarn o ddeddfwriaeth ganiatâd gan y Cadeirydd i gymryd rhan (ond nid i bleidleisio) yn nhrafodion y pwyllgor ac y caiff gwelliannau a gyflwynir gan yr Aelod sy'n gyfrifol bob amser eu symud (yn ffurfiol gan y Cadeirydd nad yw'n pleidleisio os oes angen). Byddai aelodaeth y pwyllgor yn aros fel y mae, a byddai'r Aelod sy'n gyfrifol yn mynychu'r holl gyfarfodydd perthnasol, yn cymryd rhan yn y trafodion ond ni fyddai'n gallu pleidleisio.

4.5 Cytunwyd y câi'r safonau ar gyfer cynnal pwyllgorau deddfwriaeth fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd, eu newid i adlewyrchu hyn.

**5. Trefniadau Cyflwyno**

**Papur am Doriad y Nadolig: Trefniadau Cyflwyno ar gyfer y Gwasanaeth Deddfwriaeth a Gwasanaeth y Siambr - BC(3)33-08(p8)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiau cyflwyno yn dilyn toriad y Nadolig:

Byddai'r Swyddfa Gyflwyno'n agored 6-9 Ionawr ar gyfer cyflwyno busnes ar gyfer y pythefnos gyntaf ar ôl toriad y Nadolig.

Byddai'r Swyddfa Ddeddfwriaeth yn agored 5-9 Ionawr ar gyfer cyflwyno gwelliannau i Gyfnod 2 Mesurau Arfaethedig.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**